**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth, Rhagfyr 15fed 2015 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Rob Parkes (is gadeirydd), Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Philip Stevens

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **Datgan Diddordeb Personol.** Dim

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Dachwedd 17eg 2015.**

3. **Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi.

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

   (1) Pendref, Lyf Lôn - adeiladu estyniad un llawer i gefn yr adeilad.
   (2) Trem y Foel, Lôn Dewi Sant - amnewid ffenestri.

5. **Materion Cynllunio eraill:** Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod cais pellach ynglŷn â'r llwybr beicio i'w gyflwyno rhwng nawr a mis Ionawr.

6. Cyfeiriodd y Cyng Medwyn Williams at gyfarfod o'r cyngor llawn ar yr 21ain a bod strwythur trefn y cyfarfodydd presennol ar yr agenda i'w adolygu a gofynnodd am sylwadau'r pwyllgor yma ar y strwythur presennol. Dywedodd y Cyng Rob Parkes nad oedd y sustem wedi cyflawni llawer a bod y sustem bresennol ddim yn caniatáu eraill i wybod beth oedd yn digwydd - mewn ateb dywedodd clerc y dref fod agendas a chofnodion y ddau bwyllgor yn cael eu dosbarthu i'r holl aelodau a bod gan yr aelodau'r hawl i fynychu'r ddau gyfarfod oedd hefyd yn agored i'r cyhoedd. Dywedodd y Cyng Margaret Bowe fod y sustem bresennol yn rhoi fwy o amser i drafod materion cynllunio. Awgrymodd y Cyng Medwyn Williams y gallai'r is bwyllgor archwilio dogfennau fod yn rhan o'r pwyllgor cynllunio. Dywedodd y Cyng Gaynor Morgan Rees ei bod yn edrych ar gofnodion y pwyllgor amgylchedd a chyllid ac nad oedd pob amser yn cytuno a phenderfyniadau a wnaed gan y pwyllgor hwnnw - ei bai hi oedd nad oedd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i glerc y dref ynglŷn â'r sustem bresennol ac fe'i hatebwyd. Dywedodd clerc y dref mae mater i'r cyngor llawn oedd penderfynu un ai i barhau a'r sustem bresennol, troi'n ôl i'r hen sustem neu benderfynu ar sustem newydd. Bydd angen i'r cyngor llawn wneud penderfyniad er mwyn cyhoeddi rhestr cyfarfodydd ar gyfer gweddill y flwyddyn fwrdeistrefol bresennol.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.55 o'r gloch.

Arwyddwyd:..........................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...........................................